



# **TGAU ADRODDIADAU ARHOLWYR**

**CYMRAEG AIL IAITH**

**HAF 2010**

## **Gwybodaeth Ystadegol**

Gall yr Adroddiadau Arholwyr gyfeirio'n gyffredinol at ganlyniadau ystadegol. Darperir gwybodaeth ystadegol ar berfformiadau ymgeiswyr yn yr holl gydrannau arholiad (pa un ai ydynt wedi'u hasesu'n fewnol neu'n allanol) pan gyhoeddir y canlyniadau. Yn ogystal â'r marciau a ennillwyd gan ymgeiswyr unigol, gellir cael y wybodaeth ganlynol o'r allbrintiau hyn.

*Ar gyfer pob cydran:* y marc mwyaf, ffactor agregu, marc cymedrig a'r gwriad marciau safonol a ennillwyd gan yr *holl* ymgeiswyr a gofrestrwyd am yr arholiad.

*Ar gyfer y pwnc neu'r opsiwn:* y cofrestrriad cyfan a'r marc isaf sydd ei angen ar gyfer dyfarnu'r pob gradd.

## **Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Darperir gwybodaeth arall ar sail canolfan pan gyhoeddir y canlyniadau. Mae'r *Adroddiad Ystadegol* blynyddol (a gyhoeddir yn ail ran Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol yr holl arholiadau a weinyddir gan CBAC.

**Tudalen**

## CYMRAEG AIL IAITH

### Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd 2010

*Prif Arholwr: Trefor Lewis B.A., M.Phil, Dewi Lewis B.A.*

#### **Y TASGAU LLAFAR (Y Cwrs Llawn a'r Cwrs Byr).**

##### **Y Cyflwyniad Unigol.**

Unwaith eto, cafwyd dau brif gategori – y cyflwyniad sgysriol a'r cyflwyniad areithiol. Ni fwriedir ymhelaethu amdanynt nawr oherwydd gwnaethpwyd hynny'n reolaidd yn y gorffennol. Fel arfer, y cyflwyniad sgysriol gafwyd gan y mwyafrif.

Cafwyd nifer fawr o gyflwyniadau hyderus ac uchelgeisiol. Yn yr Haen Sylfaenol dewisodd y mwyafrif themâu cyfarwydd megis 'y teulu', 'operau sebon', 'profiad gwaith', 'hobiau', 'rhaglenni teledu', 'byd y ffilmiau' ond efallai mai'r 'ardal' oedd yr un mwya' poblogaidd.

Mewn nifer o achosion roedd yr ymgeiswyr yn siarad am tua hanner dwsin a mwy o bynciau yn lle canolbwyntio ac ymhelaethu ar ddau neu dri. Roedd hyn yn arwain at ail-adrodd yr un amrediad cyfyng o batrymau brawddegol ac ati dro ar ôl tro – yr un patrymau ar gyfer pob testun yn hytrach nag amrediad ehangach a mwy uchelgeisiol ar gyfer un, dau neu dri thestun. Mae angen mwy nag 'Rydw i'n hoffi ....' a 'Dydw i ddim yn hoffi .....' i gyrraedd gradd C hyd yn oed. Roedd eraill yn fwy uchelgeisiol ac fe gafwyd cyflwyniadau gwirioneddol dda gan y goreuon yn yr Haen Sylfaenol. Mewn un ganolfan er enghraifft, cafwyd ymgeiswyr yn siarad am fyw yn yr oes dechnolegol – yn yr Haen Sylfaenol yn ogystal ag yn yr Uwch.

Yn yr Haen Uwch cafwyd cyflwyniadau ardderchog ar destunau megis 'Bwyta'n iach', 'Y di-gartre', 'Alcohol ac ysmegu', 'Cic focsio', 'Delwedd', 'Y ffasiwn' ac hyd yn oed 'Diwrnod gwobrwyo'r ysgol'. Yn anffodus, gyda'r olaf roedd pob cyflwyniad yn debyg iawn i'w gilydd – rhywbeth sy'n anorfod pan fod pawb yn disgrifio'r un digwyddiad arbennig. Fodd bynnag, cafwyd cyflwyniadau arbennig gan y goreuon – y cynnwys yn uchelgeisiol ac yn ddi-ddorol a'r mynegiant yn adlewyrchu gafael rhagorol ar adnoddau ieithyddol – cystrawennau, patrymau iaith, ymadroddion, idiomau, geirfa gyfoethog ac ati. Wrth siarad am brofiadau'r ifanc cafwyd rhyw ffresni godidog gan ymgeiswyr o un neu ddwy ganolfan wrth iddynt ymhel â 'Facebook', 'Twitter', 'e-bay', 'stafelloedd siarad', 'ffonau symudol' ac ati yn hytrach na phroblemau arferol ysmegu, alcohol a chyffuriau. O edrych yn ôl, efallai basai 'Profiadau'r Ifanc' wedi bod yn well cyd-destun na 'Phroblemau'r Ifanc' (basai'r 'problemau' yn rhan ohono, wrth gwrs).

Yn anffodus, mewn ambell ganolfan nid cyflwyniadau a gafwyd ond cyfres o gwestiynau ac atebion – yn y naill haen a'r llall. Mewn un ganolfan, er enghraifft, cafwyd cyfres o gwestiynau ac atebion am brofiad gwaith, yr un deg cwestiwn, mwy neu lai, i bawb a thua 5 cwestiwn ychwanegol yn yr Uwch. Nid dyna'r bwriad, fel y pregethwyd dro ar ôl tro yn yr adroddiadau cyffredinol, yn yr adroddiadau unigol i ganolfannau ac yn y sesiynau hyfforddiant blynyddol. Dylid rhoi cyfle i'r ymgeiswyr gyflwyno gwybodaeth yn weddol annibynnol, yn arbennig y goreuon, heb ddibynu'n ormodol ar gwestiynau'r athro/athrawes, sydd yno i ymyrryd yn adeiladol i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cael cyfle i gyflawni gofynion y dasg (ar eu lefel arbennig nhw). Yn sicr, ni chafodd yr ymgeiswyr yma'r cyfle i arddangos eu gwir allu, ac yn bendant, nid oedd ymgeiswyr yr uwch yn haeddu marciau llawn am ddim ond rhoi atebion mecanyddol i tua 15 o gwestiynau syml, a llawer ohonynt yn gwestiynau caeëdig na roddai gyfle i'r ymgeiswyr ddangos blaengaredd o gwbl.

Dyma rai o'r cwestiynau ofynwyd i bawb:

- Ble est ti ar brofiad gwaith?
- Beth oedd dy oriau gwaith?
- Sut deithiest ti yno?
- Pa fath o waith oeddet ti'n wneud?
- Gest ti frêc o gwbl? Beth wnest ti?
- Beth wnest ti amser cinio? Ayyb.

a 40 allan o 40 i dair ymgeisydd am roi atebion un frawddeg (weithiau dwy frawddeg) i gwestiynau tebyg i'r uchod. Cafodd ymgeiswyr y sylfaenol nifer o'r un cwestiynau – yr unig wahaniaeth oedd bod eu hatebion nhw'n fwy cwta (un gair weithiau) ac yn fwy herciog ond eto, yn ôl y ganolfan, yn haeddu 28 allan o 28.

Eithriadau ydy'r uchod, ac unwaith eto nid oes llawer o resymau dros fod yn or-feirniadol ond rhaid crybwyll rhai o'r prif wendidau blynyddol:

- Roedd rhai o'r cyflwyniadau yn rhy fyr - llai na munud mewn rhai achosion. Mewn un ganolfan (yn y 'Fro Gymraeg'), rhoddwyd marc o 35 am gyflwyniad dwy funud, a marc o 32 am gyflwyniad 80 eiliad. Disgwylir mwy nag hynny.
- Roedd eraill yn rhy hir. Mewn un ganolfan, er enghraifft, cafwyd cyflwyniad o 14 munud gan un ymgeisydd Uwch yn ogystal â 9½ munud yn y chwarae rôl a 15½ munud yn yr ymateb i ddarllen yn rhoi cyfanswm o 39 munud (druan ohoni). Yn yr un modd aeth un o'r ymgeiswyr Sylfaenol ymlaen am dros 32 munud. Roedd yr ymdrechion yn arbennig o dda on basai 4-5 munud wedi bod yn llawn digon yn y Cyflwyniad, er enghraifft. Roedd tueddiad gan yr athrawon i or-ymestyn y sgysiau.
- Roedd rhai disgyblion disglair yn gor-ddibynnu ar gwestiynau'r athro/athrawes fel yn yr enghraifft uchod am brofiad gwaith. Gallent fod wedi gwirfoddoli llawer mwy o wybodaeth.
- Roedd rhai athrawon heb holi digon er mwyn creu cyflwyniadau mwy naturiol ac, yn bwysicach, i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefel arbennig nhw.
- Roedd rhai o'r 'areithiau' oedd wedi eu dysgu ar gof yn swnio'n annaturiol iawn gan roi'r argraff nad oedd yr ymgeiswyr yn deall popeth roeddent yn ei ddweud.

Wedi dweud hynny, fel arfer roedd llawer mwy o rinweddau nag o ffaelectedau. Yn yr Haen Uwch cafwyd nifer fawr o gyflwyniadau gwych gyda'r ymgeiswyr yn barod iawn i gyflwyno gwybodaeth ddiddorol am amrywiaeth enfawr o bynciau yn ymestyn o diddordebau unigol a'r ardal i ddigwyddiadau a phrofiadau personol. Siaradwyd yn hyderus, yn rhwydd ac yn naturiol gyda'r athrawon yn ymuno'n achlysurol – symbyliad nawr ac yn y man i barhau'r cyflwyniad neu i newid cyfeiriad. Dibynwyd ar y cof weithiau, wrth gwrs, ond gwna siaradwyr mamiaith hyn yn eu cyflwyniadau. Yn wir, basai llawer o siaradwyr brodorol wedi bod yn falch iawn o rai o'r cyflwyniadau yma. Yn yr un modd, roedd nifer o'r cyflwyniadau Sylfaenol yn ganmoladwy iawn.

## Y Sgwrs Sefyllfa

Braf medru dweud i'r mwyafrif o athrawon, fel y llynedd, ddilyn y canllawiau a roddwyd dros y blynyddoedd diwethaf, ac ar y cyfan, cyflawnwyd y dasg yma'n foddhaol iawn eleni.

Unwaith eto, cafwyd sgysiau diddorol iawn yn yr Haen Uwch, gyda'r ymgeiswyr, ar y cyfan, yn cael digon o gyfle i gyflawni'r dasg yn weddol annibynnol gan arwain yn ddigon brwdfrydig a dangos tipyn o flaengaredd – fel ydy'r bwriad, wrth gwrs. Yn yr achosion yma dim ond sbardun yn awr ac yn y man gafwyd gan yr athrawon – digon i sicrhau parhad y sgysiau ac i ddenu ymateb gan yr ymgeisydd pan yn briodol. Cafwyd perswadio argyhoeddiadol iawn gan nifer o'r ymgeiswyr yn yr haen yma.

Defnyddiwyd amrywiaeth eang o sefyllfaodd. Defnyddiodd rhai canolfannau y tasgau a osodwyd ar gyfer Byw'r Gymraeg yn y gorffennol, eraill y Deunyddiau Enghreifftiol – heb eu newid neu gydag arlliw lleol arnynt i'w gwneud yn fwy perthnasol, ond, unwaith eto, braf gweld llawer o ganolfannau'n creu defnyddiau eu hunain.

Yn anffodus, mewn lleiafrif o ganolfannau, anwybyddwyd yr holl arweiniad a roddwyd mewn sesiynnau hyfforddiant, yn yr adroddiadau cyffredinol yma, ac yn yr adroddiadau unigol i ganolfannau. Er enghraifft:

**'... Fodd bynnag, gyda lleiafrif o ganolfannau, cafwyd gormod o holi gan yr athrawon, hyd yn oed yn yr Haen Uwch, ac weithiau fe aeth y dasg yn gyfres o gwestiynau ac atebion. Roedd hyn yn arbennig wir am y tasgau oedd yn ymwneud â byd gwaith – yn arbennig wrth geisio am swydd. Nid cyfweliad, gyda'r ymgeisydd ond yn ateb cyfres o gwestiynau gan yr athro neu'r athrawes, sydd ei angen.' – o adroddiad 2009 ac adroddiadau blaenorol.**

Defnyddiwyd yr un sefyllfa, sef ymgeisio am swydd, mewn canolfannau eraill lle roedd yr ymgeiswyr yn arwain yn frwdfrydig a'r athro yn gweithredu fel y ddolen gyswllt rhwng y camau gosodedig. Rhaid wrth fwy o holi yn y sylfaenol, wrth gwrs, er i nifer o'r ymgeiswyr yma eto ddangos digon o flaengaredd ac arwain yn effeithiol.

Soniwyd eisoes am y gorholi mewn ambell ganolfan ond ar y pegwn arall gellid, ac yn wir, dylid fod wedi holi mwy – pan oedd angen cymorth ar yr ymgeisydd. Weithiau byddai ymgeisydd yn gadael rhai o gamau'r dasg allan gan eu hanwybyddu'n llwyr. Byddai ymgeisydd arall, er enghraifft, yn rhoi brawddeg yn unig lle disgwyliid tair (am y tri marc cynnwys). **Mewn achosion o'r fath dylai'r athro/athrawes arwain yr ymgeisydd yn ôl er mwyn ceisio sicrhau bod holl gamau a holl ofynion y dasg yn cael eu cyflawni.**

Cafwyd enghreifftiau lle roedd yr athro/athrawes fel petai'n rhuthro drwy'r dasg gan amddifadu'r ymgeiswyr o'r amser angenrheidiol i gyflawni'r gofynion. Pan fydd yr athro/athrawes yn rhuthro tuedda'r ymgeiswyr wneud yr un fath. Yn wir, yn bur aml, mae perfformiad ymgeisydd yn gallu adlewyrchu natur yr 'holi' – os ydy'r 'holi' yn fywiog ac yn frwdfrydig tuedda ymateb yr ymgeiswyr i fod felly hefyd. Yn yr un modd, ac fe gafwyd enghreifftiau o hynny eleni, pan fydd yr 'holi' yn ddiflas ac yn ddi-fywyd, mae tueddiad i ymatebion yr ymgeiswyr fod yn ddiflas ac yn ddi-fywyd hefyd.

Rhaid ail-adrodd rhai o'r gwendidau blynyddol:

- Rhai o'r sefyllfaoedd yn rhy anodd i'r Haen Sylfaenol, eraill yn rhy hawdd i'r Haen Uwch;
- Methiant ar ran yr athrawon i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ymateb i holl gamau'r dasg;
- Weithiau teimlid bod yr ymgeiswyr wedi dysgu sgript, gyda phob disgybl yn ateb yr un cwestiynau gyda'r un atebion;
- Ni dderbyniwyd copi o'r sefyllfa bob amser. Roedd hyn yn gwneud tasg y safonwr bron yn amhosibl weithiau;
- Defnyddiodd rhai canolfannau ymgeisydd/ymgeiswyr yn lle'r athro neu athrawes fel partner/iaid yn y sgwrs sefyllfa/ chwarae rôl. Ni weithiodd hyn bob tro. Cofier bod perfformiad yr ymgeisydd yn aml yn dibynnu ar berfformiad y partner. Ydy ymgeisydd arall bob amser yn gymwys?;
- Roedd ansawdd y recordio'n wael mewn lleiafrif o ganolfannau.

### Yr Ymateb Llafar i Ddarllen.

Y ddau bwynt pwysig a bwysleisiwyd dro ar ôl tro ydy:

- **pwysigrwydd lefel darlennedd y deunydd darllen;**
- **yr angen i ddangos dealltwriaeth o'r hyn a ddarllenwyd.**

Fel yn y gorffennol, roedd y deunyddiau darllen yn amrywio'n fawr o ganolfan i ganolfan, rhai wedi darllen llyfrau fel 'United', 'Dial', ac ati, eraill wedi astudio cerddi fel 'Becso am y Bocsys', 'Y Bocs', 'Sbwriel' ac 'Euogrwydd' tra defnyddiwyd nifer o erthyglau o 'IAW!' ar gymeriadau fel Imogen Thomas, Rhydian, Charlotte Church a Maggot. Defnyddiwyd erthyglau ar destunau fel 'Patagonia', 'Ralió', 'Bwyta'n iach a chadw'n heini', 'Blwyddyn Allan' a'r 'Ffasiwn'. Roedd adroddiadau disgyblion am eu profiad gwaith yn ddefnyddiau poblogaidd ac hefyd cymharu llythyrau cais am swydd yn null tasg llythyrau John a Sioned.

Defnyddiwyd deunyddiau gwahaniaethol gan lawer o ganolfannau, ond mae lleiafrif yn dal i ddefnyddio'r un deunydd ar gyfer pob disgybl – o A\* i G. Fel yn y gorffennol, tueddai'r deunyddiau yma i fod yn iawn ar gyfer y disgyblion canolig ond heb fod yn ddigon heriol i gyfiawnhau graddau A ac A\* i'r goreuon ar y naill law, ac yn llawer rhy uchelgeisiol i'r gweiniaid ar y llaw arall.

Roedd natur yr holi yn gwahaniaethu'n fawr hefyd. Llwyddodd llawer i drafod yr hyn a ddarllenwyd yn weddol annibynnol gan fynegi safbwynt personol a dangos dealltwriaeth o'r cynnwys ar yr un pryd. Ar y pegwn arall dim ond cyfres o gwestiynau a gafwyd mewn rhai canolfannau gydag atebion byr, parotaidd na roddai gyfle o gwbl i ddangos barn bersonol na llwyr ddealltwriaeth o'r hyn ddarllenwyd. Weithiau, mewn achosion lle roddwyd yr un deunydd darllen i bawb, nid oedd fawr wahaniaeth rhwng perfformiadau'r ymgeiswyr hynny a ddylai, yn ôl y ganolfan, fod wedi cael A\*, a'r rhai hynny a dargedwyd ar gyfer graddau F a G. Roedd hyn yn arbennig wir am y canolfannau hynny lle gofynwyd nifer o gwestiynau caeëdig na roddai gyfle i ymgeiswyr ddangos unrhyw flaengaredd na'u gwir allu ieithyddol. Yn hytrach na gofyn cwestiynau fel 'Pryd cafodd Ryan ei eni?', 'Ble cafodd e ei eni?', 'Beth oedd enw ei Dad?', 'Beth oedd gwaith ei Fam?' 'Oes chwaer gyda fe?' ayyb, gwell fyddai gosod tasg fwy cyffredinol fel 'Dwedwch rywbeth am gefndir Ryan'.

Droeon gofynwyd nifer o gwestiynau personol ar y diwedd oedd yn hollol amherthnasol i'r dasg gan nad oeddent yn cyfeirio at y darnau darllen o gwbl ac felly nid oeddent yn cyfrannu at ddangos dealltwriaeth o gwbl – sef prif bwmpas y dasg. Er enghraifft, ar ôl siarad am 'Flwyddyn Allan Gareth Wyn' gofynwyd 'Beth ydy dy farn di am brofiad gwaith?' Gwell fasai cwestiwn mwy cyffredinol fel 'Hoffet ti fynd ar brofiad gwaith i gwmni Sion Wyn? Pam?' fyddai'n rhoi cyfle i'r ymgeisydd gyfeirio at y deunydd darllen wrth fynegi barn.

Fel yn y sgwrs sefyllfa, ni dderbyniwyd copi o'r dasg bob tro. Gwna hyn waith y safonwr allanol yn llawer mwy anodd.

## **YR ARHOLIAD LLAFAR – Y Dasg Pâr/Grŵp.**

Fel y disgwylir, gan fod pawb yn hen gyfarwydd â'r dasg yma erbyn hyn, dilynwyd y cyfarwyddiadau i'r dim gan y mwyafrif o ganolfannau. Unwaith eto, ni ddaeth yr un o'r safonwyr ar draws llawer o broblemau mawr. Ar ôl dweud hynny rhaid nodi bod ambell ganolfan yn dal i anwybyddu'r cyfarwyddiadau a nodir yn y llyfryn a ddanfonir i bob canolfan er y cyfeirir at y ffaeiddau yma'n rheolaidd yn yr adroddiadau yma, yn yr adroddiadau unigol i ysgolion ac yn y sesiynnau hyfforddiant mewn swydd rheolaidd. Ymddiheurir am ailadrodd rhai o'r prif ffaeiddau blynyddol yma unwaith eto, rhai ohonynt yn berthnasol i'r Cyfredol yn unig, rhai i'r Peilot yn unig, ac eraill i'r naill gwrs a'r llall:

- heb roi cyfenwau'r ymgeiswyr yn gyntaf;
- heb restrir ymgeiswyr yn nhrefn teilyngdod;
- heb nodi marc y ganolfan ar y ffurflen farciau;
- heb nodi enw/rhif y ganolfan ar y casetiau/crynoddisgiau;
- heb ddanfon y casetiau/crynoddisgiau a'r ffurflenni ar wahân (rhwygir llawer o ffurflenni wrth agor pecynnau'r casetiau);
- heb enwi pob aelod o bob pâr/grŵp ar y ffurflen farciau;
- heb nodi'r aelod a dargedir ar y ffurflen farciau;
- heb ddanfon y sampl y gofynnwyd amdani (llai, ond gan amlaf, mwy nag oedd ei angen);
- heb ddirwyn y tapiau yn ôl i'r dechrau cyn eu danfon;
- heb ofyn i'r ymgeiswyr gyflwyno eu hunain ar ddechrau'r recordiad fel bod y safonwr yn adnabod y gwahanol leisiau, er bod hyn yn un o ofynion y dasg yn y Peilot;
- heb sicrhau bod y recordiadau'n ddigon eglur – weithiau roedd llais yr athro/athrawes yn llawer mwy clir na'r ymgeiswyr.

Siaradwyd ar amrywiaeth eang o destunau – y gosodiadau, y lluniau a'r symbyliadau fideo bron i gyd. Yn Haen Uwch y Cwrs Llawn, ar y dydd cyntaf efallai mai'r pynciau mwyaf poblogaidd oedd '*Diddordebau*' (y fideo), y lluniau '*Edrych ar ôl y corff – Pa mor ffôl ydych chi?*', a'r lluniau '*Mynd allan – Y Stadiwm: cyngerdd neu chwaraeon?*'

Ar yr ail ddydd defnyddiwyd tipyn ar y tasgau i gyd ag eithrio'r gosodiad '*Byd ffals ac afreal ydy byd y ffilmiau*' er i ni gael ambell ymdrech ganmoladwy ar y testun hwnnw hefyd. Yn y Cwrs Byr defnyddiwyd tipyn ar y fideo '*Yr Ardal*', '*Chwaraeon – gwylio neu gymryd rhan?*' (y lluniau) ar y diwrnod cyntaf, ac ar yr ail ddydd y mwya' poblogaidd oedd lluniau '*Cyfleusterau'r ardal*' a'r sbardun fideo am '*Chwaraeon*'.

Braf, unwaith eto, oedd gweld rhai canolfannau'n defnyddio tasgau gwahanol ar gyfer pob un o'r parau/grwpiau, ond rhaid cyfaddef mai glynu at yr un testun i bawb wnaeth llawer. Weithiau, yn yr achosion yma, roedd sgysiau pob grŵp yn dilyn yr un patrwm, gan ddefnyddio'r un eirfa, yr un ymadroddion a.y.y.b oedd yn awgrymu 'gor-baratoi'. Yr unig wahaniaeth weithiau oedd bod y goreuon yn ynganu, yn pwysleisio ac yn seibannu'n well.

Weithiau teimlid eu bod wedi dysgu (neu geisio dysgu) sgrïpt. Ond rhaid pwysleisio mai lleiafrif bach a wnai hyn. Cafwyd enghreifftiau di-ri' o barau a grwpiau'n trafod yn ddeheuig gan siarad yn hollol rhwydd a naturiol heb ddibynnu'n ormodol ar y cof o gwbl. Cafwyd holi pwrpasol gan athrawon er mwyn hwyluso'r fath sgysiau ac er mwyn sicrhau cyflawni gofynion y dasg a'r cynllun marcio. Roedd y cyd-adweithio rhwng y disgyblion yn ganmoladwy iawn, a chafwyd trafodaethau aeddfed a synhwyrol ynghyd â'r gallu i fynegi barn bendant. Defnyddiwyd ystod eang o amserau'r ferf, o batrymau ieithyddol, cystrawennau, ymadroddion, idiomaau ac ati, gyda'r ymgeiswyr yn dangos eu bod yn medru ar iaith gyfoethog a chywir o'r safon uchaf.

Yn yr Haen Sylfaenol testunau mwyaf poblogaidd y Cwrs Llawn oedd '*Amser Hamdden*' a '*Rhaglenni Teledu*' ym mhrawf A, '*Byd y ffilmiau*' a '*Chwaraeon*' ym mhrawf B, '*Canu Pop*' ym mhrawf C a'r tri thestun '*Hobiau*', '*Yr Ardal*' ac '*Operau Sebon*' ym mhrawf CH. Yn y Cwrs Byr, ar y dydd cyntaf (Profion A a B) defnyddiwyd y pedwar dewis yn reolaidd iawn, ac felly hefyd y pedwar testun ar yr ail ddydd (Profion C a CH). Yn y Sylfaenol, mewn llawer o ganolfannau roedd tueddiad i or-ddibynnu ar gwestiynau'r athro/athrawes yn hytrach nag holi ac ateb ei gilydd. Ar y llaw arall, mewn rhai canolfannau doedd dim digon o holi gan yr athro/athrawes pan oedd ei angen, ac roedd hyn yn tueddu i lesteirio tipyn ar naturioldeb y sgwrs. Roedd hyn yn wir am yr Haen Uwch weithiau hefyd. Fel y pwysleisiwyd yn Adroddiad 2009 ac adroddiadau blaenorol eraill **mae'n bwysig cofio ei bod hi'n ddyletswydd ar yr athro / athrawes i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn ceisio cyflawni holl ofynion y dasg gan eu harwain, os oes angen, drwy 4 cam yr Haen Sylfaenol a 3 cham yr Haen Uwch. Hefyd dylid ceisio sicrhau eu bod yn ateb gofynion y cynllun marcio ar eu lefelau arbennig nhw.**

Dyma ail-adrodd rhai o'r ffaelecteddau blynyddol :

- Roedd rhai o'r sgysiau'n rhy fyr i gyfiawnhau'r marciau a roddwyd gan y ganolfan. Roedd hyn an arbennig wir am y Cwrs Byr. Mae angen tipyn mwy na munud neu ddwy i deilyngu'r graddau uchaf.
- Cafwyd trafod amherthnasol gan rai grwpiau yn arbennig pan oeddent yn crwydro'n ormodol oddi ar y testunau dan sylw i siarad am y testun (efallai'r unig destun) roeddent wedi ei baratoi.
- Collwyd marciau gan rhai ymgeiswyr drwy fethu cyflawni holl gamau'r dasg.
- Mewn lleiafrif o ganolfannau ni chafwyd digon o holi (weithiau dim holi o gwbl) gan yr athro/athrawes er mwyn creu sgwrs mwy naturiol, neu er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cyflawni holl ofynion y dasg (fel yn y pwynt blaenorol) er mwyn ateb y gofynion a'r cynllun marcio.
- tueddiad i ail adrodd yr un patrwm ieithyddol (e.e. 'rydw i'n hoffi/ rydw i eisiau) heb unrhyw amrywiaeth o gwbl mewn ambell ganolfan. Ni ddisgwilir llawer mwy na hyn gyda'r gweiniaid, ond gyda goreuon yr Haen Sylfaenol hyd yn oed, disgwylir amrediad o amserau'r ferf ac amrywiaeth o batrymau brawddegol ac ati.
- Gorddibynnu ar y cof weithiau (roedd hyn yn wir am yr Haen Uwch efallai yn fwy na'r Sylfaenol).

Ar wahân i'r gwendidau arferol roedd safon y dasg pâr/grŵp yn ganmoladwy iawn eleni eto. Llongyfarchiadau gwresog i'r ymgeiswyr a'r athrawon fu'n eu hyffoddi mor gydwytodol.



## **YR ARHOLIAD GWRANDO A DEALL**

Yn y Cyfredol, fel yn Byw'r Gymraeg, roedd canlyniadau'r Haen Sylfaenol a'r Haen Uwch, yn y Cwrs Llawn a'r Cwrs Byr i'll dau, yn ymdebygu i ganlyniadau 2009 gyda marciau'r Cyfredol, unwaith eto, ychydig yn uwch oherwydd y marciau gormodol am gywirdeb iaith yn y Peilot. Braff medru dweud eleni eto mai ychydig iawn o ymgeiswyr wrthododd gwneud ymdrech o gwbl.

### **Y Cwrs Llawn.**

#### ***Haen Sylfaenol C.1***

Cafodd y mwyafrif o'r ymgeiswyr farciau uchel yn y cwestiwn yma ac efallai ychydig mwy yn llwyddo i gael y marciau llawn eleni. Yr unig air i achosi problem cyson oedd 'torheulo' ac roedd 'heulog' fel petai'n ddieithr i rai ymgeiswyr hefyd.

#### ***Haen Sylfaenol C.2***

Cafwyd ymateb da i'r cwestiwn yma gyda'r mwyafrif yn dangos eu bod wedi deall tipyn o'r sgwrs rhwng Nia ac Iwan gyda nifer yn ennill marciau llawn, mwy neu lai. Mae Nos Iau, Nos Fercher neu nos Lun yn syrthio ar y penwythnos yn ôl rhai, a Llundain yng Nghymru yn ôl eraill. Cafwyd llyfrgell yn lle stafell gerddoriaeth weithiau a dau docyn i'r gêm yn Stadiwm y Mileniwm yn lle i'r sioe gerdd.

#### ***Haen Sylfaenol C.3a / Haen Uwch C.1a***

Y cwestiwn grid am werth eitemau ar *e-bay*. Roedd hwn bron yr un fath â'r cwestiwn cyfatebol yn y Peilot. Roedd yr ymatebion dealltwriaeth yn debyg iawn yn y ddau gwrs ond collwyd llai o farciau iaith yn y Cyfredol, gan fod 10 marc iaith yn y Peilot o gymharu â 3 yn y Cyfredol. Cafwyd atebion reit foddhaol i'r ddwy golofn gyntaf ('*Eitem?*' a '*Faint o arian?*') er i rai gael problem wrth sillafu 'llyfrau', 'ffôn' a 'rhaglenni'. Hefyd cafwyd 'Harry Potter' weithiau yn lle 'llyfrau Harry Potter' ('llyfrau' oedd y gair allweddol, wrth gwrs). Cafwyd 'Samsung' o dan Eitem oedd yn ffeithiol anghywir, wrth gwrs. Yn y ddwy golofn olaf (*Gwybodaeth arall*) fe wnaeth y mwyafrif ymdrech i lenwi nifer o'r blychau er mai hanneri atebion gafwyd gan rai yma hefyd. Cafwyd 'ffasiynol' weithiau yn lle 'siaced ffasiynol', 'siaced newydd' yn lle 'eisiau siaced newydd' neu 'rhaid prynu siaced newydd', 'Samsung' yn lle 'eisiau Samsung newydd' a.y.y.b.

Fel y gellid disgwyl gyda'r cwestiwn gorgyffwrdd (fel C.1b), perfformiodd ymgeiswyr yr Haen Uwch dipyn gwell na rhai'r Haen Sylfaenol. Ar ôl dweud hynny, braff nodi i lawer llai o ymgeiswyr y Sylfaenol roi'r ffidil yn y tô cyn ateb y gridiau.

#### ***Haen Sylfaenol C.3b / Haen Uwch C.1b***

Cafwyd perfformiadau gwell na'r grid blaenorol yn y grid yma gydag ymgeiswyr yr Haen Sylfaenol yn gwneud yn well nag arfer a llai yn anwybyddu'r cwestiwn yn gyfangwbl. Yma eto, cafwyd rhannau o atebion weithiau fel 'ardderchog' yn lle 'pwll ardderchog', 'David Davies' neu 'Eleanor Simmonds' yn lle 'DD/ES yn ymarfer yno'. Yn yr un modd 'Michael Ball' yn lle 'MB yn canu yno' a 'John Lewis' yn lle 'JL wedi agor'. Fodd bynnag, ymatebion canmoladwy iawn ar y cyfan.

## **Haen Uwch C.2**

Unwaith eto, fel y disgwylid erbyn hyn, enillwyd gwell marciau yn y Peilot nag yn y Cyfredol ond rhaid gofyn a ydy'r cwestiwn yn y Peilot yn profi dealltwriaeth yr ymgeiswyr?

Ni chafwyd problemau cyson gyda'r cwestiwn yma eleni eto gyda'r mwyafrif mawr yn cael yr eitem olaf – y tywydd – yn gywir am unwaith. Cafwyd rhai problemau wrth gwrs ond ni achosodd yr un elfen fwy o benbleth na'r gweddill. Efallai mai eitem 9 am y beiciwr ifanc o'r Fenni achosodd y problemau mwya' – ond nid enfawr.

## **Haen Uwch C.3**

Fel yn y Peilot, cafwyd ymateb arbennig o dda i'r cwestiwn yma eleni eto. Er i un ganolfan gwyno am y dewis, fe brofodd Derek Brockway i fod yn destun teilwng iawn ac yn ôl nifer o athrawon, gallai llawer o ymgeiswyr, fel dysgwyr, uniaethu gydag e.

Llwyddodd y mwyafrif i gael marciau rhagorol yn Adran 1. Fel y disgwylid cafodd mwyafrif mawr farciau da am gwestiynau 1 a 2 a 3, er i nifer gamsillafu geiriau fel 'chwaer', 'gyrru', 'diddordebau' a 'folcanau'. Yn wir, ychydig iawn llwyddodd i sillafu 'folcanau' gyda'r **f**. Eto'i gyd, mewn un ganolfan yn y Cyfredol, fe llwyddodd pob ymgeisydd (10 ohonynt) ei sillafu'n gywir, a hynny yn y Cwrs Byr (roedd ymgeiswyr Uwch y ganolfan honno'n llawer mwy gwallus gyda phawb yn defnyddio'r **v** ar ddechrau'r gair). Cafodd holl ymgeiswyr y Cwrs Byr rannau eraill yn berffaith gywir e.e. 'chwaer', 'gyrru lori', ac yn 3(b) cafwyd '*roedd diddordeb mawr gen i mewn folcanau*' gan bawb – rhyfedd iawn, a dweud y lleiaf. Atebwyd cwestiynau Adran 2 yn dda hefyd er i ni gael atebion tameidiog yn bur aml gan rai ymgeiswyr – fel yn y gridiau.

Fel y disgwylir cafwyd mwy o broblemau gydag Adran 3 ac Adran 4 ond cafwyd nifer o ymgeiswyr yn ateb yr adrannau yma'n berffaith hefyd (llwyddodd nifer o ymgeiswyr mewn sawl canolfan i gael 100 allan o 100 am y papur). Cwestiwn 7 (y rhesymau dros ddysgu Cymraeg) a chwestiwn 12 (neges Derek) achosodd y prif broblemau er i nifer, fel y dywedwyd, ateb popeth yn ddiraferth.

Yn sicr, dangosodd y mwyafrif eu bod wedi deall tipyn o gynnwys y cyfweiliad. Ychydig iawn, iawn o ymgeiswyr wrthododd gwneud ymgais o gwbl.

## **Y Cwrs Byr.**

Fel y llynedd cafwyd ymatebion rhagorol ar y cyfan gyda'r nifer o sgrïptiau gwag yn isel unwaith eto. Mae'n bryder mawr, fodd bynnag, fod mwy a mwy o ymgeiswyr yn sefyll y cwrs yma – llawer iawn ohonynt yn ddigon galluog i ddisgleirio yn y Cwrs Llawn ac hyd yn oed yn yr Uwch gyfrannol a Safon Uwch yn y dyfodol – ond yn anffodus, ni chaiff y mwyafrif llethol y cyfle i wneud hynny gan mai'r Cwrs Byr maent yn sefyll yn TGAU. Yn waeth fyth, mae nifer o'r disgyblion galluog yma'n sefyll yr Haen Sylfaenol gan mai dyna'n unig a gynnigir iddynt mewn rhai canolfannau. Fel y dywedwyd yn adroddiad y llynedd mae hyn yn fygythiad mawr i ddyfodol y Gymraeg yn ein hysgolion.

## **Haen Sylfaenol C.1**

Unwaith eto, roedd y perfformiadau yn y cwestiwn yma'n arbennig o dda gyda'r mwyafrif yn ennill marciau llawn, mwy neu lai, ac heb unrhyw eitem yn achosi llawer o broblemau.

### ***Haen Sylfaenol C.2***

Cafwyd canlyniadau boddhaol iawn yma eto – y mwyafrif yn sgorio'n sylweddol ond yr un gwendidau ag yn y Cwrs Llawn.

### ***Haen Sylfaenol C.3 / Uwch C.1***

Y cwestiwn grid am wyliau ysgol. Ymdrechion tebyg i'r cwrs llawn – ymgeiswyr yr Haen Uwch yn gwneud tipyn gwell na rhai'r Haen Sylfaenol ond llawer llai ohonynt heb wneud ymdrech o gwbl. Cafwyd yr un camgymeriadau ag yn y Cwrs Llawn.

### ***Haen Uwch C.2***

Pump o eitemau newyddion yr Haen Uwch gyda'r un problemau ag yn yr haen honno – gydag eitem y tywydd yn llawer gwell eleni.

### ***Haen Uwch C.3***

Gweler y Cwrs Llawn (Adran 1 ac Adran 2 yn unig).

## **GWAITH CWRS, YSGRIFENNU A DARLLEN**

Mae safon y gwaith cwrs yn gwella bob blwyddyn ac mae tystiolaeth fod athrawon yn defnyddio'r tasgau fel rhan allweddol o'u cynllun gwaith ysgol. Mae ffrwyth y cyfarfodydd hyfforddiant mewn swydd i'w gweld yn glir ar gynnwys y gwaith a hefyd ar safon y gweinyddu.

Mae nifer fach o athrawon dibrofiad o hyd yn gosod yr un tasgau ar gyfer yr holl ystod gallu o A\* - G, ac o'r herwydd ddim yn gwneud tegwch a'r ddau begwn gallu.

Dylid gosod gweithgareddau ar gyfer pedwar carfan wahanol o ran gallu. Yn naturiol, gellir cael elfennau sy'n gorgyffwrdd rhwng un garfan a'r llall.

e.e. rhwng carfan 1 a charfan 2.

Gellir meddwl yn fras felly am bedair carfan.

Disgyblion sy'n anelu at raddau:

Carfan 1 A\* – top B

Carfan 2 B – C

Carfan 3 Gwaelod C – top E

Carfan 4 E, F – G.

Mae angen i fwy o ysgolion eto edrych ar eu gwaith ysgrifennu ar y cyd-destun Llên a Llun. Mae safleoedd ardderchog ar y we a gall ysgolion eu defnyddio yn sail i waith ysgrifennu Llên a Llun. Mae gwefannau megis Bandit yn ardderchog ar gyfer canu cyfoes a gellir cael pob math o wybodaeth am y grwpiau a'u cefndir. Gan mai defnyddio'r ffynonellau hyn fel symbyliad bydd yr ymgeiswyr, does dim angen iddynt ddeall pob manylyn o'r wybodaeth sy ar y wefan.

### **Ymatebion ysgrifenedig i waith Darllen**

Eleni eto llwyddodd y mwyafrif llethol i ymateb yn addas i amrywiaeth eang o ddarnau darllen gan gynnwys cerddi o bob math. Mae athrawon yn cydweithio mewn ardaloedd i greu deunyddiau darllen diddorol a symbylus ac mae hwn yn arfer dda y gellid ei gymeradwyo ar gyfer siroedd cyfan. Mae cyfle gwych i athrawon yn y tasgau gwaith cwrs i sicrhau bod eu disgyblion yn cael tasgau diddorol sy'n apelio at eu diddordebau nhw. Mae'n drueni bod ambell ysgol, yn aml lle ceir athrawon newydd dibrofiad, ar goll yn gyfangwbl cyn belled ag y mae ymateb i ddarllen yn y cwestiwn. Yn aml iawn dydy canllawiau'r CBAC ddim ganddynt a dydyn nhw heb gael cyfle i fynychu cyfarfodydd HMS. Yn sicr dylent gysylltu â'r CBAC ac efallai ofyn i adrannau Cymraeg cyfagos am gymorth.

Mae'n werth cynnwys y rhestr ganlynol er mwyn i athrawon gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesa.

#### **I godi safonau:**

- (i) Mae eisiau i athrawon ymateb yn gadarnhaol i'r tasgau gwaith cwrs, gan baratoi cyrsiau a gwersi symbylus, addas a diddorol;
- (ii) Mae eisiau ystyried paratoi'r disgyblion ar gyfer y sgiliau ysgrifennu a darllen hyn yn CA3;
- (iii) Rhaid rhoi cyfle i'r disgyblion ysgrifennu'n gydlynus er mwyn rhoi marc iaith synhwyrol iddynt yn eu tasgau ymateb i ddarllen yn ysgrifenedig;

- (iv) Gellir cael dwy ran i'r asesiad. e.e. y rhan gyntaf yn asesu dealltwriaeth trwy waith grid a'r ail ran yn asesu dealltwriaeth trwy ysgrifennu cydlynus sy efallai yn cymharu profiadau'r ymgeisydd â'r profiadau yn y darn darllen;
- (v) Rhaid i'r dasg asesu darllen rhoi cyfle i'r disgybl ddangos dealltwriaeth o'r darnau darllen yn y tasgau a gyflawnir. Nid symbyliad yw'r darnau darllen hyn er mwyn cael gwaith ysgrifennu personol neu greadigol;
- (vi) Rhaid gosod tasgau gwahaniaethol, er mwyn ymestyn y goreuon a rhoi digon o gynhaliaeth i'r gweiniaid.

## **ARHOLIAD CWRS LLAWN – DARLLEN AC YSGRIFENNU**

### **Haen Sylfaenol.**

#### *Cwestiwn 1 (i)*

Mae'r cwestiwn hwn yn targedu graddau F a G ac yn ymwneud â thestunau sylfaenol cyfarwydd. Llwyddodd y mwyafrif helaeth, yntau i gael marciau llawn neu 8+ gan ddangos fod ganddynt ddealltwriaeth dda o destunau sylfaenol cyfarwydd megis teulu, ysgol, ardal, amser, rhifau ac amser hamdden. Y cwestiwn mwyafrif heriol oedd - Gwneud cwrs y flwyddyn nesa gyda? - a llwyddodd y mwyafrif llethol i ddeall 'gyda choed a natur'. Yn aml esgeulustod sy'n cyfrif am golli marciau yn y cwestiwn hwn.

#### **I godi safonau dylai ymgeiswyr:**

- (i) dalu sylw manwl i'r pedwar dewis cyn rhoi eu tic yn y bocs;
- (ii) darllen y darnau fwy nag unwaith cyn dod i gasgliad ynglŷn â pha focs i ddewis;
- (iii) edrych dros eu gwaith ar y diwedd.

#### *Cwestiwn 1(ii)*

Darllen e-bost oedd y dasg yma a disgwylir i'r ymgeiswyr ateb chwe cwestiwn ac yna ysgrifennu e-bost gan ymateb i dri pheth yn yr e-bost gwreiddiol.

Roedd hi'n amlwg o'r atebion bod y mwyafrif llethol o'r ymgeiswyr yn deall yr e-bost syml ac yn gallu cynhyrchu e-bost syml fel ateb. Mae hon yn dasg y bydd llawer o ysgolion yn ei chynnwys yng nghynllun gwaith CA3 ac yn ei gwneud yn yr ystafell gyfrifiaduron.

Does dim rhaid i ymgeiswyr ateb y cwestiynau mewn brawddegau llawn – y wybodaeth yn unig sy ei hangen.

*e.e. Hia, diolch am yr e-bost. Pnawn 'ma dw i'n helpu dad – dw i'n hoffi ffilmiau antur – dw i'n dod gyda ti. Flwyddyn nesa dw i'n gweithio gyda dad.*

*Hwyl  
Bob.*

#### **I godi safonau dylai ymgeiswyr:**

- (i) sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r geiriau gofynnol syml, megis Faint, Pwy, Ble, Beth, Pryd a Sawl a'u bod yn rhoi ateb synhwyrol i'r geiriau gofynnol hynny. e.e. mae'n amlwg fod 'Pwy' yn gofyn am enw person a 'faint o'r gloch' yn gofyn am ateb yn ymwneud ag amser.
- (ii) sicrhau eu bod yn gyfarwydd â 'ti' yn ogystal â 'chi' mewn cwestiwn a'u bod yn gallu rhoi ateb syml i gwestiynau creiddiol fel sy yn yr e-bost.
- (iii) ymarfer y sgil o ymateb i e-bost yng nghyfnod allweddol 3.

### Cwestiwn 2

- (i) Ysgrifennu paragraff byr yn cynnwys o leiaf wyth o ffeithiau yw'r dasg yma. Gan fod y cwestiwn yn targedu graddau F ac G mae'r cyd destunau yn gyfarwydd a sylfaenol iawn – pethau megis ardal, teulu, nhw eu hunain, amser hamdden, ysgol ayyb. Rhoddir 8 marc am 8 ffaith wedi ei mynegi'n gyfathrebol a 2 farc cywirdeb am ddwy gystrawen cwbl gywir mewn brawddegau. Mae hon yn dasg sy'n cael ei pharatoi'n fanwl gan athrawon ac o'r herwydd ceir ymatebion llwyddiannus iawn gan y mwyafrif llethol. Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn cael dechreuad hyderus i'r adran ysgrifennu oherwydd maent wedyn yn dyfalbarhau ac yn ymdrechu i gwblhau'r cwestiynau dilynol.

#### I godi safonau dylai ymgeiswyr gwan iawn:

- (i) ddysgu nifer fechan o frawddegau ar y cof ar destunau megis 'fi fy hun' er mwyn rhoi hyder iddynt i ddechrau ymateb yn llwyddiannus i dasg ysgrifennu;
- (ii) ail ddarllen y paragraffau yn C1 er mwyn atgoffa eu hunain o'r cystrawennau creiddiol sy eu hangen i ymateb yn llwyddiannus i'r dasg ysgrifennu sylfaenol hon.

### Cwestiwn 2 (ii)

Mae'r marciau yn yr adran hon yn gwella o flwyddyn i flwyddyn ac mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod athrawon yn paratoi eu disgyblion yn fanwl ar y math yma o ysgrifennu. Mae tystiolaeth o'r sgrïptiau bod ymgeiswyr yn cael ei hyfforddi i roi tic wrth ochr y pethau maent wedi cynnwys yn yr e-bost ac mae hynny yn arfer dda. Mae mwy a mwy o ddisgyblion yn defnyddio arddull e-bost ac yn gwneud hynny'n llwyddiannus.

*e.e. Hia Phil – mynd ar y go karts dydd Mercher yn Llanfawr. Mynd ar y bws deg o'r gloch y bore a dod adre ar y bws chwech o'r gloch. Gwisgo jeans a crys T – mae'n hwyl rasio go karts. Wyt ti'n dod? E-bostia fi.  
Sam.*

#### I godi safonau dylai ymgeiswyr:

- (i) ymgyfarwyddo â geirfa cyd destunau megis siopa, parti, tripiâu ysgol;
- (ii) ymarfer ysgrifennu e-bost at ffrindiau gan ddefnyddio'r cyfrifiaduron yn yr ysgol.

### Cwestiwn 3

Cafwyd ymateb da gan yr ymgeiswyr i'r dasg ddarllen hon sy'n targedu graddau D ac E. Mae cyd-destun y ddau ddarn yn gyfarwydd i'r ymgeiswyr sef, ysgol, amser hamdden, cerddoriaeth, tywydd a llyfrau. Mae'n bwysig nad yw'r ymgeiswyr yn cymryd yn ganiataol bod y grid yn dilyn yr un drefn â'r darnau darllen. Hefyd yn rhan (ii) dylid pwysleisio bod angen edrych am ddau beth gwahanol rhwng Phil a Carys ac nid pethau tebyg. Hefyd rhaid cynhyrchu brawddegau llawn yn yr adran hon h.y. yn cynnwys berf.

*e.e. Hoff glwb Phil ydy cyfrifiaduron a hoff glwb Carys ydy golff.  
Mae Phil yn hoffi darllen llyfrau teithio a Carys llyfrau hanes.*

#### I godi safonau dylai'r ymgeiswyr:

- (i) ymgyfarwyddo â'r gair 'gwneud' a'u bod yn naturiol yn edrych am weithred yn yr ateb, hefyd bod 'mynd i ble' yn golygu bod rhaid iddynt edrych am le yn yr ateb;
- (ii) dylai'r ymgeiswyr ymarfer y dasg o ysgrifennu brawddegau syml i ddangos y gwahaniaeth rhwng y ddau gan sicrhau eu bod yn defnyddio'r person cywir. Nid oes angen brawddegau cymhleth yn y rhan hon o'r asesiad.

#### *Cwestiwn 4*

Mae cyfle yma i ymgeiswyr yr haen sylfaenol ddangos eu bod yn gallu ysgrifennu'n gydlynus ar destunau cyfarwydd iddynt. O ran mynegiant edrychir am gystrawen frawddegol syml ond cywir. Ar y cyfan cafwyd ymateb da i'r cyd destunau ac o'r ymgeiswyr a wnaeth ymdrech i wneud y dasg, ychydig iawn gafodd dan hanner marciau. Rhaid cofio bod tri thestun ac y dylid ysgrifennu yn weddol gytbwys am y tri. Collodd rhai ymgeiswyr da farciau oherwydd eu bod wedi ysgrifennu ar (ii) yn unig ac wedi anwybyddu'r ddau arall.

#### **I godi safonau dylai'r ymgeiswyr:**

- (i) sicrhau eu bod yn gallu ysgrifennu brawddegau cywir gan ganolbwyntio ar y gystrawen 'ydy' e.e. Pel droed ydy fy hobi a fy hoff dîm ydy Caerdydd;
- (ii) ymarfer mynegi barn gan ddefnyddio 'achos' a rhesymau syml megis 'achos mae'n ddiddorol, achos mae'n dda, achos mae'n hwyl ayyb.

#### *Cwestiwn 5. (Cwestiwn 1 Uwch)*

Cafwyd ymateb rhagorol, gan yr ymgeiswyr uwch, i'r cyfweiliad hwn â Mark Evans ac roedd hi'n amlwg fod llawer ohonynt wedi dilyn y gyfres ar y teledu. Hoffwn dynnu sylw eleni eto at ail hanner yr asesiad. Mae'r geiriad ar y papur yn dweud bod rhaid i'r ymgeiswyr ofyn cwestiynau i gael mwy o wybodaeth am bethau y sonnir amdany'n nhw yn y cyfweiliad. Felly doedd hi ddim yn bosib mynd i mewn i'r arholiad gyda chwestiynau wedi eu paratoi o flaen llaw. Roedd hi'n gwbl amlwg bod y mwyafrif o'r ysgolion wedi paratoi eu disgyblion yn addas gan roi digon o ymarfer iddynt yn y grefft hon. Fodd bynnag, roedd hi'n amlwg hefyd nad oedd nifer fach o ymgeiswyr wedi cael hyfforddiant cymwys ac o'r herwydd yn aml yn colli chwe marc.

Felly dydy cwestiwn fel

'Ydych chi'n hoffi gyrru Ferrari?' ddim yn addas o gwbl oherwydd nad oes sôn am yrru ceir na Ferrari yn y darn.

Ar y llaw arall mae cwestiwn syml fel 'oeddech chi'n hoffi'r ysgol gynradd yn Llanrhaeadr?' yn gwbl addas ac yn haeddu 2 farc.

#### *Dyma enghraifft o'r Haen Uwch.*

1. *Ydych chi'n hoffi 'Glee'. Mae llawer o ganu yn e*
2. *Mae Charlotte Church yn berson hyfryd. Wyt ti'n cytuno?*
3. *Hoffech chi wneud sioe siarad yn dyfodol?*

#### **I godi safonau dylai ymgeiswyr gwan:**

- (i) edrych ar y cyfweiliad estynedig yma fesul cwestiwn yn hytrach na phanicio o weld llond tudalen o ysgrifennu;
- (ii) ymarfer y grefft o ymateb yn syml i'r ail ran. Gellid gwneud ymarfer yn y dosbarth lle mae disgyblion yn asesu gwaith ei gilydd gan ddweud a yw cwestiynau yn ddilys ai pheidio.

#### *Cwestiwn 6 (Cwestiwn 2 Uwch)*

Llwyddodd y goreuon o'r haen sylfaenol a'r mwyafrif llethol o'r haen uwch i ymateb yn ddiddorol a llwyddiannus i'r dasg hon. Yn sicr mae ysgrifennu fesul blociau yn apelio at ymgeiswyr yr haen Sylfaenol. Mae'r cyd destun ardal a chyfleusterau ar gyfer yr ifanc yn gyfarwydd i'r mwyafrif ac adlewyrchwyd hyn yn y paragrffau diddorol a gafwyd ganddynt. Yn sicr apeliodd y testunau – defnyddio'r cyfrifiadu'r a hoff wefannau / gemau a pham at yr ymgeiswyr i gyd. Roedden nhw'n amlwg wrth eu bodd yn sôn am wefannau megis *Facebook, Twitter, My space a llawer o flogiau eraill*. Cafwyd hefyd resymau da am hoffi gemau cyfrifiadurol megis .....

Yn yr adran olaf mae angen meddwl yn ofalus am amser y ferf ond gellir defnyddio 'rydw i'n mynd i ...' yn ogystal â ' bydda i'n....'

### **I godi safonau dylai'r ymgeiswyr gwan:**

- (i) ymarfer ysgrifennu'n syml yn yr amser gorffennol a'r dyfodol gan ganolbwyntio ar gystrawennau megis 'es i', 'bydda i'n';
- (ii) ymarfer ysgrifennu'n syml am bethau fel yr ardal, chwaraeon, cyfrifiadur a'r teledu;
- (iii) dylai ymgeiswyr canolig eu gallu ganolbwyntio ar y gystrawen 'ydy' gan sicrhau nad ydynt yn defnyddio 'mae' ac 'ydy' yn yr un frawddeg. e.e. camgymeriad cyson yw.' 'Mae fy hoff seren ydy Gavin Henson'.

### *Cwestiwn 3 (Uwch)*

Ar y cyfan cafwyd ymateb da i'r ddwy erthygl yma lle mae pobl ifanc yn mynegi barn ar destunau cyfoes. Un bai amlwg yng ngwaith yr ymgeiswyr gradd C oedd eu bod yn copïo popeth ar bwnc ac yn ei ysgrifennu i gyd yn yr ateb h.y. heb ddethol y wybodaeth berthnasol. Canlyniad hyn oedd eu bod yn cael dim marc o gwbl am yr elfen honno. Yn sicr mae angen mwy o ymarfer ar ymgeiswyr canolig eu gallu gan sicrhau eu bod yn deall beth yw'r rheswm creiddiol am gytuno neu anghytuno a mynegi hynny'n syml yn yr ateb.

e.e. Mae dilyn y ffasiwn yn beth drwg i bobl ifanc – Sharon yn Cytuno – Pam? – mae dillad ffasiynol yn rhy ddrud neu does dim digon o arian gan bobl ifanc i ddilyn y ffasiwn.

Mae sioeau talent ar y teledu yn beth drwg – Sharon yn anghytuno – Pam? mae'n rhoi cyfle i bobl ifanc ddangos eu talent.

Yn yr ail ran mae'n bwysig bod yr ymgeiswyr yn ymateb trwy roi eu syniadau eu hunain a chynhyrchu gwaith ysgrifenedig cywir gan sicrhau bod y cymal achos yn cael ei ddefnyddio'n gywir.

e.e.

*Dw i'n cytuno gyda Huw ynglyn â sioeau talent achos maen nhw'n ddiflas iawn ac yr un peth bob blwyddyn.*

*Dw i'n anghytuno gyda Sharon ynglyn â canolfan siopa achos mae llawer o ddillad ffasiynol yno a siopau bach hefyd.*

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr:**

- (i) adolygu'r adrannau sy'n ymwneud â mynegi barn yn drylwyr – adrannau megis pwysau cyfoedion, hawliau pobl ifanc ac anifeiliaid, yr amgylchedd lleol gan gynnwys sbwriel a fandaliaeth ayyb;
- (ii) Dylai ymgeiswyr hefyd ddarllen y gosodiadau yn rhan i) yn fanwl gan sylwi ar eiriad y gosodiad;
- (iii) sicrhau eu bod yn cynnwys rheswm personol yn rhan ii) fel yr enghraifft uchod.



#### Cwestiwn 4

Mae'r cwestiwn hwn ar fynegi barn yn cydblethu'n hyfryd gyda'r gwaith grŵp llafar. Felly mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn delio gyda'r testunau hyn yn llafar ac ysgrifenedig yn yr un cyfnod. Mae'r eirfa arbenigol sy ei hangen yn addas ar gyfer ysgrifennu a siarad.

Y testunau mwyaf poblogaidd oedd 'ffonau symudol' a 'i pods a chwarae gemau ar y cyfrifiadur' a 'bwlio' Cafwyd gwaith gwirioneddol dda gan y goreuon; roedd ganddynt farn glir a syniadau pendant ynghyd â rhesymau a thystiolaeth gynhwysfawr i ategu'r farn honno.

Hefyd roedd y goreuon yn ysgrifennu'n gywir gan ddefnyddio paragraffau i nodi eu pwyntiau'n glir a thacclus.

*e.e.*

dechrau gyda phwynt cyffredinol.

*Dw i'n meddwl mae yna bethau mwy poblogaidd na gwyllo'r teledu. Erbyn hyn, mae'n well gan pobl ifanc gwranddo ar ipods, chwarae gemau cyfrifiadur a blogio.*

Wedyn ychwanegu rhesymau fesul paragraff.

*Mae llawer o pobl yn cerdded o gwmpas yn wrando ar ipods .....*

*Hefyd rydych chi'n gallu dewis beth sy ar eich ipob .....*

Paragraff arall.

*Mae'r tref yn llawn o gemau cyfrifiadur.....*

*Mae'n well gan bechgyn chwarae 'Call of Duty' na gwyllo'r teledu.....*

*Mae gemau rhagorol ar lein fel .....*

Paragraff arall am blogio a gwefannau megis 'Facebook' a 'Twitter'.

Paragraff i orffen

*I gorffen, dw i'n meddwl bod teledu yn hen ffasïwn a ddim mor poblogaidd â .....*

#### **I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig:**

- (i) ganolbwyntio ar ddefnyddio cystrawen sylfaenol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir. Mae cynnwys y llythyrau hyn bron bob amser yn ddiddorol a pherthnasol - yn aml y gystrawen sy'n ddiffygiol.

#### Cwestiwn 5

Llwyddodd y tasgau asesu oedd yn dilyn yr erthygl uchelgeisiol hon i wahaniaethu'n dda rhwng y graddau B a C a'r graddau uwch sef A ac A\* .Roedd cyd destun yr erthygl sef Ysmygu yn gyfarwydd i'r ymgeiswyr i gyd ond roedd gofyn am ddealltwriaeth drylwyr o'r erthygl i ymateb yn llwyddiannus i'r tasgau. Y goreuon yn unig lwyddodd i ateb C3 yn gywir. Ar y cyfan, cafwyd ymatebion da i ran ii) lle ceir 8 marc am ddefnyddio'r wybodaeth yn y darn i berswadio ffrind i roi'r gorau i ysmegu. Cafwyd tystiolaeth bendant bod y mwyafrif llethol yn ymwybodol o ofynion y dasg ac yn gallu cyflwyno rhesymau da o'r erthygl dros roi'r gorau i ysmegu. Diffyg cystrawen addas oedd yn llesteirio'r canolig eu gallu.

Dyma enghraifft o ymateb A\*

*Mae'n rhaid i ti rhoi'r gorau i ysmegu, mae'n ddrwg i dy iechyd. Mae ysmegu yn achosi problemau fel pwysau gwaed uchel, clefyd y galon a cancr yr ysgyfaint. Bydd yn gwell iddi ti stopio ysmegu yn fuan, bydd yn haws na pryd ti'n hennach. Hefyd bydd ysmegu yn effeithio sut ti'n edrych, bydd dy ddannedd gwyn yn troi yn melyn neu brown. Mae ysmegu yn gwneud i chi drewi ac dydy e ddim yn ffasiynol. Mae chwaraeon yn well i ymlacio na ysmegu. Triwch roi'r gorau i ysmegu nawr!!!*

**I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig eu gallu:**

- (i) sicrhau eu bod yn dyfalbarhau a gwneud ymdrech i ateb pob cwestiwn;
- (ii) gwneud ymdrech i ysgrifennu'n syml ar y rhannau hawddaf yn (ii) gan sicrhau eu bod yn cyfeirio at y darn darllen.

**Cwestiwn 6**

Cafwyd ymatebion diddorol a chynhwysfawr ar y tri thestun. Yn (a) soniodd yr ymgeiswyr am achlysuron ysgol megis yr eisteddfod, diwrnod mabolgampau a teithiau arbennig i godi arian. Llwyddodd yr ymgeiswyr yn (b) i roi'r ddwy ochr i waith cwrs gan ddod â rhesymau da i atgyfnerthu eu barn. Eto yn (c) cafwyd wahaniaeth barn ynglyn â rhaglenni chwaraeon ar y teledu. Llwyddodd y goreuon i ysgrifennu erthyglau diddorol gydag elfen gref o gywirdeb.

**I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig:**

- (i) ganolbwyntio ar gywirdeb a chystrawen greiddiol y frawddeg;
- (ii) osgoi'r camgymeriadau amlwg fel: *'Mae ddim, rydw i'n eisïau, rhy gormod, roedd nhw, dylwn pobl ifanc' 'achos mae nhw ddim" rydw i'n meddwl bod does dim'.*

## CYMRAEG AIL IAITH – CWRS BYR

Eleni eto roedd mwy o ymgeiswyr cwrs Byr nag erioed o'r blaen ond yn anffodus hefyd roedd llawer mwy o ymgeiswyr wnaeth fawr o ymdrech yn y papurau Ysgrifennu a Darllen Sylfaenol. Roedd canran sylweddol, tua 10 % heb geisio ymateb i unrhyw gwestiwn ysgrifennu ar y papur o gwbl ac wedi cwblhau Cwestiwn 1 yn unig yn y Darllen.

### *Cwestiwn 1*

Fel yn y cwrs Llawn, cafwyd ymatebion da gan y mwyafrif o'r ymgeiswyr a'r elfen achosodd fwyaf o drafferth oedd 'Gwneud gyda Debbie bore Sadwrn' a 'gwneud beth nos Sadwrn'.

Cafwyd ymateb da iawn i ran (ii) ar y cyfan gyda chwestiynau 5, 6 a 7 yn achosi peth trafferth i'r gweiniaid. Mae'n braf dweud bod y mwyafrif llethol wedi ymdrechu i wneud rhan (ii) a bron pawb wedi llwyddo i gael o leiaf 1 marc.

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr:**

- (i) dalu sylw manwl i'r pedwar dewis cyn rhoi eu tic yn y bocsy;
- (ii) darllen y darnau fwy nag unwaith cyn dod i gasgliad ynglŷn â pha focs i ddewis;
- (iii) sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r geiriau gofynnol syml, megis Faint, Pwy, Ble, Beth, Pryd a Sawl a'u bod yn rhoi ateb synhwyrol i'r geiriau gofynnol hynny. e.e. mae'n amlwg fod 'Pwy' yn gofyn am enw person a 'faint o'r gloch' yn gofyn am ateb yn ymwneud ag amser;
- (iv) gael digon o ymarfer i ymateb i e-bost o wahanol ffynonellau.

### *Cwestiwn 2*

Llwyddodd canran dda i gael 15 neu well o farciau ar y cwestiwn hwn ac roedd hi'n amlwg o'r cynnyrch bod yr ymgeiswyr wedi cael eu paratoi'n dda. Roedd rhan (i) yn rhoi cyfle da i ymgeiswyr ymateb gyda brawddegau oedd wedi eu paratoi o flaen llaw ac felly yn codi eu hyder ar gyfer gweddill y cwestiwn.

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr:**

- (i) ail ddarllen y deunydd darllen yn C 1 er mwyn ymgyfarwyddo â chystrawennau sylfaenol, syml a geir yn y darnau. e.e. rydw i'n, mae... , fy hoff seren ydy ...;
- (ii) ddefnyddio'r cystrawennau hyn yn eu gwaith wrth ymateb yn C2;
- (iii) sicrhau eu bod yn ysgrifennu am y tri thestun gan gynnwys 5 ffaith ym mhob un.

### *Cwestiwn 3 (Cwestiwn 1 Uwch)*

Llwyddodd yr ymgeiswyr Uwch i ymateb yn llawn i'r cwestiwn hwn gan ddangos dealltwriaeth gyflawn o'r darn. Cafwyd ymatebion synhwyrol a chywir gan y goreuon i'r ail ran hefyd.

*e.e. Dw i'n cytuno gyda Kirsty. Gwelais i Slumdog Millionaire llynedd a ces i amser gwych. Dw i'n cytuno gyda Kirsty. Dw i'n hoffi Duffy achos dw i'n mwynhau gwrando ar cerddoriaeth pop.*

### **I godi safonau dylai ymgeiswyr:**

- (i) ymarfer ymateb mewn grid fel sy yn y cwestiwn hwn;
- (ii) adolygu geiriau gofynnol megis: Pryd? Gwneud beth? Pam? Sawl?;
- (iii) ymarfer yn drwyadl ymateb a rhoi rheswm yn yr ail ran.

*Cwestiwn 4 ( cwestiwn 2 Uwch)*

Ymatebodd canran uchel o ymgeiswyr sylfaenol ac uwch yn eitha llwyddiannus i'r dasg ysgrifennu hon. Trueni bod tua 10% o'r ymgeiswyr Sylfaenol heb roi cynnig ar y dasg hon o gwbl. O edrych ar eu gwaith yn C2, mae'n amlwg fod gan rai ohonynt yr adnoddau ieithyddol i wneud hynny.

Dyma enghraifft o rannau o waith ymgeisydd sy wedi cynllunio ei gwaith yn dda gyda pharagraff ar gyfer y tri thestun. Mae hi wedi ymarfer rhoi rhesymau gan amrywio'r gystrawen a'r rheswm.

..... ydw i. Dw i'n un deg chwech oed a dw i'n byw yn Wrecsam.

*Dw i'n hoffi chwarae pel fasged yn y parc bob penwythnos achos dw i'n mwynhau bod tu allan. Dw i wrth fy modd yn chwarae badminton achos dw i'n hoffi cadw'n heini. Dw i'n hoffi gwrando ar MP3 hefyd, fy hoff gantores ydy Duffy. Fy hoff hobi ydy chwarae ar y cyfrifiadur achos mae'n hwyl.*

*Dw i'n mynd allan gyda fy ffrindiau weithiau achos dw i'n cael amser da.....*  
.....

*Dw i'n mwynhau gwyllo'r teledu achos dw i'n hoffi ymlacio. Dw i ddim yn hoffi opera sebon achos dw i'n meddwl bod opera sebon yn sbwriel a mae'n wastraff amser. ....*

**I godi safonau dylai ymgeiswyr gwan:**

- (i) ail ddarllen y darnau darllen yn C1 a C3 er mwyn atgoffa eu hunain o'r cystrawennau sylfaenol a ddefnyddid ganddynt yng nghyfnod allweddol 3 a 4;
- (ii) gadw eu brawddegau yn syml.

*Cwestiwn 3 (Uwch)*

Ar y cyfan, cafwyd ymatebion da iawn i'r dasg ddarllen hon gan yr ymgeiswyr Uwch. Mae'n amlwg fod llawer o'r ymgeiswyr hyn â chryn fedrusrwydd yn y Gymraeg a gallai llawer ohonynt wneud y cwrs llawn o gael amser dysgu addas yn yr ysgol er mwyn paratoi'r cyd-destunau ychwanegol. Byddai hyn wedyn yn eu galluogi i ystyried dilyn cwrs Lefel A ail iaith yn y chweched dosbarth. Llwyddodd yr ymgeiswyr canolig eu gallu i ymateb yn llwyddiannus i'r pedwar cwestiwn cyntaf.

Cafwyd ymatebion rhagorol gan y goreuon i rhan (ii) – gan gymharu eu gweithgarethau hwy â'r rhai yn y darn darllen a hefyd defnyddio'r rwbric yn synhwyrol.

*Petasai plant Zimbabwe yn dod i Wrecsam, hoffwn i mynd â nhw i'r sinema fel yn Nhresaint achos mae sinema yn newydd a ffilmiau yn gret. Lle gwahanol dw i'n mynd â nhw ydy siopau achos mae llawer o dewis a mae dillad ffasiynol yn y siopau.*

**I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig eu gallu:**

- (i) ymarfer ysgrifennu paragraffau i ymateb i destunau lle mae gofyn iddynt gytuno ac anghytuno;
- (ii) sicrhau eu bod yn adolygu'r testunau sy'n arbennig ar gyfer yr haen uwch e.e.yr amgylchedd, defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal, bwlio a thensiwn rhwng ffrindiau, hwlighaniaeth, cyflogau uchel bobl yn y byd chwaraeon.

*Cwestiwn 4 (Uwch)*

Cafwyd gwaith gwirioneddol dda gan y goreuon. Roedd eu mynegiant yn hyderus ac ystwyth a gallent ddefnyddio ystod dda o gystrawennau yn gywir ar y cyfan. Roedd eu syniadau'n aeddfed a diddorol ac roedd cynllun da i'r gwaith gorffenedig. Roedd hi'n gwbl amlwg y gallai'r ymgeiswyr hyn ymdopi'n llwyddiannus â'r cwrs llawn.

**I godi safonau dylai ymgeiswyr canolig:**

- (i) ail ddrafftio eu gwaith yn yr ystafell ddosbarth er mwyn codi safon cywirdeb;
- (ii) osgoi camgymeriadau megis: rydw i ddim yn cytuno, bod dylai, dydy nhw ayyb.



CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin  
Caerdydd CF5 2YX  
Ffôn 029 2026 5000  
Ffacs 029 2057 5994  
E-bost: [exams@wjec.co.uk](mailto:exams@wjec.co.uk)  
gwefan: [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)